

Darn o Llyn

drwy lygaid Ifan Pritchard o Nefyn

Llyn i'r gorllewin o Bwlheli a Nefyn Lsydd gennym mewn golwg yma yn eithafion y penrhyn, gyda'i fân bentrefi a'i fryniau, megis Sarn Mellteyrn a Bryncroes, y Foel Gron, Mynydd Anelog, Mynydd yr Ystum chwedlonol, Y Rhiw a Phenarfynydd. Llŷn cyfareddol rywle rhwng Penfro a'r Wicklows.

Mae rhai ardaloedd yn Llŷn nad oes iddynt fawr yn aros o strwythur y gorffennol; ardaloedd heb lythyrdy nac ysgol, heb dafarn na siop. Ambell gapel sy'n aros a'r aelodau a'r sêl yn brin.

Mae ambell neuadd bentref yn llwyddo i lenwi'r bwlch i ryw raddau. Un o'r rhain yw Neuadd Myntho a anfarwolwyd gan R. Williams Parry gyda'i *Adeiladwyd gan dlodi*; Neuadd y Rhiw; Neuadd Y Sarn a ail godwyd gyda throad y ganrif newydd; Neuadd Rhoshirwaun, yr hynaf ohonynt, y dathlwyd ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed yn 2002, ym mhen draw Llŷn, ac yn benodol ym mhlwyf Aberdaron. A yw tair neuadd bentref o fewn yr un plwyf yn unigryw i Gymru gyfan?

Yr oedd y neuadd yn Aberdaron ar yr un patrwm â neuadd Rhoshirwaun, a hen neuadd y Sarn, adeilad sinc, fel y lleill ond a aeth yn aberth i heli'r môr. Codwyd ysgol newydd – Crud y Werin – ac yno mae neuadd bwrsasol sy'n ffitio gofynion y plant a'r ardalwyr.

Mae pentref y Rhiw, sydd yn llythrennol ar hen y rhiw, hefyd yn rhan o blwyf Aberdaron. Nid oes yno erbyn hyn na siop na llythyrdy nac ysgol. Ond mae'r neuadd ynghanol y pentref yn adeilad cymharol fodern a chryn dipyn o ddeunydd yn cael ei wneud ohoni.

Nid yw neuadd Rhoshirwaun ymhell o'r ysgol, fel yr hed y frân, a bu cydweithredu agos rhwng y ddau sefydliad ar hyd y blynyddoedd. Cofiaf yn dda mai gorchwyl y plant hynaf ar un adeg, pan gynhelid eisteddfod neu gyngerdd yn y neuadd, fyddai symud y piano o'r ysgol. Gorchwyl y bechgyn hynaf oedd codi'r piano drom ar dryc pwrpasol gyda'i olwynion car di-deiar a'i thynnu ar hyd y ffordd droellog am gryn chwarter milltir i'r neuadd. Y swm yn diasbedain drwy'r fro, y plant i'cuengaf yn rhyfeddu a'r bechgyn yn dyheu am fod yn ddigon mawr a chryf i gael eu dewis i wneud y gwaith; distawrwydd wedi i'r orchwyl ddod i ben a lle gwag mawr yn yr ystafell ddosbarth. Beth ddywedai swyddogion addysg a rhieni'r oes hon am hyn tybed? Pwyllgor y Neuadd fyddai'n gyfrifol am ei chodi ar y llwyfan.

Roedd 'Sermoni Symud y Piano' yn clymu plant yr ysgol wrth weithgareddau'r neuadd a diwylliant yr ardal yn yr un modd ag y gwnâi Llyfrgell Robert Evans, Methlan. Roedd ffermwr cefnog o'r ardal wedi gwaddoli arian i wahanol sefydliadau, a rhan o'r waddol hefyd oedd y llyfrgell. Erys y cwprdd yn y co; dodrefnyn cain o goeden goch, drysau gwydr, ac uwch y rhain, y geiriau 'Llyfrgell Robert Evans Methlan' wedi eu cerfio; ei silffoedd yn llawn o lyfrau. Yr un Methlan â Methlan y Piwritan Henry Maurice. Bu gwaddol Robert Evans o fendith i blant y fro, nid yn unig yn ariannol, ond yn ddiwylliannol hefyd. Roedd rhan arall o'r llyfrgell yn y llofft uwchben festri capel Rhydlios, rhan o ardal Rhoshirwaun. O ble, tybed, y cafodd



Ysgol Llidiardau, Rhoshirwaun.



Neuadd Rhoshirwaun.

Robert Evans ei chwaeth at ddiwylliant a llenyddiaeth mewn oes ddi-freintiau?

Er mai treflan wasgarog oedd, ac yw Rhoshirwaun, a rhan helaeth o'r wlad yn dir comin, ar un adeg cynhelid eisteddfod yn y fro (ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg), a'i galw yn Eisteddfod Hyd y Gannwyll, yna yn Eisteddfod Mawrth Ynyd – sef dyddiad y cynhelid hi – ac yna yn Eisteddfod y Rhos. Yn ôl y sôn, byddai'r eisteddfod yn para tra byddai bywyd yn y gannwyll. Cynhelid hi yn ysgubor fferm Tŷ Lôn, ac yn ddiweddarach, mewn pabell ger Ysgol Llidiardau cyn adeiladu'r neuadd. Dibynnai hyd yr eisteddfod ar pa mor wyntog oedd y noson!

O'r 'Steddfod hon ac o weinidogaeth y Pachedig John James gyda'r Bedyddwyr yn yr ardal y meithrinwyd beirdd a chynganeddwyr yn y fro. Roedd eu henwau hwy ac enwogion eraill Llŷn yn amlwg ar fur y neuadd o'r tu cefn i'r llwyfan. Golygai hyn fod enwau rhai fel Siarl Marc, Patrobas, Richard Hughes, Cefnllanfair, yn ogystal â'r gwŷr lleol, megis Rhosfab, Bugeilfardd, Davies Top-y-rhos, Dewi Daron, Gwilym y Rhos a llu o rai eraill yn dod yn rhan o etifeddiaeth plant yr ardal heb iddynt fod yn ymwybodol o hynny o gwbl.

Anhysbys i lawer o'r tu allan i'r ardal oedd amryw o'r bobl hyn. Un ohonynt oedd David Moore. Ym 1922 bu'n fuddugol yn Eisteddfod y Rhos am ei gerdd 'Trafnidiaeth yn Lleyrn ers 1860', cerdd sydd wedi ei chynnwys mewn cyfrol

ddiweddar, *Cerddi Llŷn ac Eifionydd*, er na cheir enw'r bardd yn y gyfrol. O'r un cychwyniad yn Rhoshirwaun, daeth gwaith ac enwau eraill yn fwy diweddar yn adnabyddus i Gymru gan iddynt fod yn enillwyr cenedlaethol. Dau o'r rhain oedd y diweddar Evan Hughes, y Fachwen, a enillodd gyda'i gywydd i Eifionydd, a'r englynwr, y Parchedig Roger Jones, awdur 'Y Nyth':

Dim ond adar mewn cariad
Yn gwneud tŷ heb ganiatâd.

Mae amryw eraill ddaeth i mewn i'r traddodiad, megis prifathro'r ysgol ym mhedwar degau'r ganrif ddiwethaf, Evan R. Davies. Un o'i ddisgyblion ef oedd Griff Williams sydd wedi hen gartrefu yn y De. Wedi angladd ei fam a'r gwasanaeth ar lan y bedd wrth y môr yn Aberdaron, dydd byr Rhagfyr, haul yn machlud yn odidog dros Fraich y Pwll a gwaddi'r diweddar Barchedig R. O. G. Williams yn cyfleu'r achlysur yn berffaith, dyma fel y canodd Griff:

Fe aeth yr hiraeth yn hud – o wyllo
Yr heulwen yn machlud;
Nid y boen o'i newid byd,
Na hiraeth nawr, ond golud.

Mae llawer mwy y gellid ei ddweud am yr ardal yn ddiwylliannol ac yn grefyddol. Sôn, er enghraifft, am fawrion y genedl yn eu tro mewn Cymantfa Bregethu, eisteddfod a chyngerdd. Tybed mai cau'r tiroedd comin fu dechrau'r cyfan yn Rhoshirwaun?